**Cymdeithas yr Iaith**
**30 Hydref 2024**

## Dogfen Briffio Bil y Gymraeg ac Addysg

Rydym yn croesawu'r bwriad i ddeddfu yn y maes hwn, ac yn falch o weld consensws trawsbleidiol dros amcanion y Bil yn y broses graffu hyd yma. Derbynia pob plaid wleidyddol bellach bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, y dylai'r iaith fod yn hawl sylfaenol i bob plentyn yng Nghymru, a bod angen deddfwriaeth flaengar er mwyn gwireddu hyn.

Fodd bynnag, nid ydym yn credu bydd y Bil ar ei ffurf bresennol yn drawsnewidiol o ran cyrraedd yr amcanion hyn. Rydym wedi amlinellu pum pwynt cwbl greiddiol sydd angen eu diwygio yn y Bil drafft er mwyn sicrhau ei lwyddiant a rhoi'r hawl i bob un plentyn allu siarad Cymraeg yn hyderus:

1. Sefydlu nod statudol ar wyneb y Bil ar gyfer y canran o blant sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050. Rydym yn argymell gosod hyn ar 100%.
2. Gosod pob ysgol ar gontinwwm at fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg dros amser.
3. Sicrhau erbyn 2030 mai 30% yw lleiafswm yr addysg cyfrwng Cymraeg mae plant mewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg; Rhannol Gymraeg' yn ei dderbyn.
4. Gwaredu'r esemptiadau ar gydymffurfio â chategorïau iaith ysgolion.
5. Llunio cynllun gweithredu cenedlaethol i uwchsgilio'r gweithlu ysgolion gan ddechrau gyda chyllideb o £20m y flwyddyn.

## Addysg Gymraeg i Bawb

- Mewn arolwg Yougov diweddar, cytunodd 59% o bobl a holwyd y dylai ysgolion yng Nghymru anelu at addysgu pob disgybl i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. O hepgor y rheiny a atebodd 'ddim yn gwybod', mae'r ffigwr yn codi i 67%.
- Mae'r egwyddor o symud pob ysgol yng Nghymru at ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050 bellach yn y brif ffrwd, gyda chefnogaeth 39% o bobl Cymru, a 45% gan hepgor y rheiny atebodd 'ddim yn gwybod.' Roedd y gefnogaeth ar gyfer y ddwy egwyddor yma'n sylweddol uwch ymysg pobl ifanc.
- Addysg *cyfrwng Cymraeg*, lle mai Cymraeg yw cyfrwng addysg ar gyfer pob pwnc, yw'r unig ffordd effeithiol o roi i'r Gymraeg i blentyn, a dyna felly ddylai fod y nod ar gyfer pob un ysgol.
- Yn 2013, cyhoeddwyd yn adroddiad *Un Iaith i Bawb* nad yw dysgwyr Cymraeg ail iaith yn "ddigon hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth."[1] Mae gobeithion adran 11(3)(b)(ii) y Bil o roi'r Gymraeg i blant trwy addysg yn bennaf trwy'r Saesneg a dysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg felly'n gwbl ddi-sail a chamarweiniol.
- Mae adran 8(2)(a) y Bil fel y mae yn ceisio ailddiffinio ystyr addysg Gymraeg, gan awgrymu ei fod yn cynnwys "addysgu'r Gymraeg" yn ogystal â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma gam sy'n cymylu'r dyfroedd yn ddiangen, ac mae perygl i'r dryswch yma danseilio amcanion y Bil.

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2013) https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/adolygiad-o-gymraeg-ail-iaith-yng-nghyfnodau-allweddol-3-a-4.pdf, t. 1.

## Nodau Statudol

- Dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, dydy canran y plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ddim ond wedi cynyddu o 19.06% i 22.47% mewn ysgolion cynradd ac o 12.89% i 13.48% mewn ysgolion uwchradd.[2]
- Methodd Llywodraeth Cymru ei tharged ei hun, a osodwyd yn *Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg 2010*, y byddai 30% o blant 7-oed yn cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf erbyn 2020, gan mai dim ond 22.8% oedd y ffigwr erbyn 2021.[3]
- Dyma ganlyniad anochel cyfundrefn heb dargedau statudol er mwyn gyrru'r strategaeth. Nid yw'r Bil ar hyn o bryd yn cywiro'r methiant sylfaenol yma; yn hytrach, bwriedir rhoi cyfrifoldeb statudol ar Weinidogion Cymru i *osod targedau* (adran 1 (C)), sy'n rhywbeth cwbl wahanol.
- Dylid felly cynnwys adran 1(b) newydd fyddai'n gosod nod statudol, ochr yn ochr â'r targed o filiwn, ar gyfer canran y plant fydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050, ar lun targed Deddf Newid Hinsawdd (2008) ar gyfer allyriadau carbon.[4] Rydym yn argymell gosod y targed yma ar 100%.

## Gosod ysgolion ar gontinwwm ieithyddol

- Canlyniad categoreiddio ysgolion yw gosod ysgolion mewn safle statig o ran eu Cymraeg. Nid yw'r Bil fel y mae yn rhoi sicrwydd y bydd ysgolion yn symud i fyny'r categorïau, heb sôn am wneud cynnydd o fewn y categorïau, sy'n codi cwestiynau sylfaenol am effeithiolrwydd y Bil.
- Cynigiwn felly y dylid cynnwys sefydlu Continwwm i ysgolion ar wyneb y Bil, fyddai'n gosod pob ysgol ar daith at fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Dylai Camau Cynnydd clir ar hyd y Continwwm gael eu diffinio ar wyneb y Bil, gan ddisodli'r categorïau presennol yn adran 9.
- Mae'r trywydd i bob awdurdod lleol ei ddilyn er mwyn sicrhau bod 100% o'u plant yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2050, wedi'i amlinellu yn *Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod*.[5]

## Y Gymraeg mewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg; Rhannol Gymraeg'

- Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn gosod 10% fel yr isafswm ar gyfer y gyfran o ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion 'Prif Iaith – Saesneg; Rhannol Gymraeg', sy'n cyfateb â hanner diwrnod yr wythnos yn unig, cyfran gwbl annigonol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Mae addysgu'r Gymraeg fel pwnc wedi bod yn orfodol ers Deddf Diwygio Addysg 1988 a deddfau dilynol (Deddf Cwricwlwm 2021 erbyn hyn) a does prin ddim byd wedi newid ers hynny.[6]
- Credwn y byddai sefydlu isafswm o 30% o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pob plentyn erbyn 2030, sy'n gyfystyr â diwrnod a hanner yr wythnos, yn y lle cyntaf yn darparu cynnydd ystyrlon ar gyfle pob plentyn i ddod yn siaradwr Cymraeg, a bod y lleiafswm yn cynyddu dros amser.

---

[2] Ystadegau Cymru, *Nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ôl awdurdod lleol a chategori Gymraeg* (Caerdydd: Ystagedau Cymru, 2024) https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilswelshclasses-by-localauthority-welshcategory

[3] Llywodraeth Cymru, *Strategaeth y Gymraeg mewn Addysg* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 2010) https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/11114/14/100420welshmediumstrategycy_Redacted.pdf, t. 21; Archwilio Cymru, *Darlun o Ysgolion: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru* (Caerdydd: Archwilio Cymru, 2021) https://archwilio.cymru/sites/default/files/publications/POPS-Schools-Cym.pdf, t. 8.

[4] Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Deddf Newid Hinsawdd* (2008) https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/27/part/1/crossheading/the-target-for-2050

[5] Cymdeithas yr Iaith, *Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod* (Aberystwyth: Cymdeithas yr Iaith, 2024) https://cymdeithas.cymru/dogfen/addysg-cyrraedd-nod

[6] Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Dwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003) https://busnes.senedd.cymru/Data/WelshCommittee582/20021219/Agenda/ELL%2019-02(p.1)%20Atodiad%20B%20Adroddiad%20y%20Gweinidog.pdf, t. 39.

## Diddymu Esemptiadau

- Mae esemptiadau i gyrraedd y lleiafswm o addysg cyfrwng Cymraeg yn y Bil, a phosibilrwydd bod ysgol yn cael ei heithrio o weithredu am gyfanswm o chwe blynedd, sy'n gyfystyr â bron i chwarter (24%) y cyfnod hyd at 2050. Nid oes cyfiawnhad ar gyfer hyn, a dylid diddymu adrannau 18 a 19 y Bil sy'n darparu ar gyfer hynny.

## Heriau'r gweithlu a heriau ariannol

- Mae paratoi craff a chyllido sylweddol er mwyn uwch-sgilio gallu Cymraeg y gweithlu yn hanfodol.
- Mae gan 31.4% o athrawon eisoes y gallu i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a 7.7% pellach sgiliau Cymraeg cryf iawn.
- Rydym yn amcangyfrif y byddai angen buddsoddiad o £20 miliwn y flwyddyn i wireddu hyn, yn ogystal â thargedau statudol ar gyfer hyfforddi'r gweithlu a chymhelliannau ariannol ar gyfer athrawon.
- Dylid gosod nodau ar gyfer dysgu'r Gymraeg fel rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon, law yn llaw â hyfforddiant mewn swydd, fel y cyrsiau 'reciclatge' llwyddiannus yng Nghatalwnia.

## Gwybodaeth bellach:

*Tystiolaeth Ysgrifenedig Cymdeithas yr Iaith ar Fil y Gymraeg ac Addysg i Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd* (2024)

*Deddf Addysg Gymraeg Cymdeithas yr Iaith* (2023)

*Addysg Gymraeg i Bawb: Cyrraedd y Nod* (2024)

*Strategaeth Datblygu Gallu'r Gweithlu* (2017)

*Cynllunio'r Gweithlu Addysg - Cyrraedd Miliwn o Siaradwyr Cymraeg* (2016)

I gael unrhyw wybodaeth bellach, neu i drafod y materion a nodir yn y ddogfen hon, cysylltwch â cyfathrebu@cymdeithas.cymru